**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**
**Tystysgrif Addysg Gyffredinol Uwch**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**
**General Certificate of Education Advanced**

555/52

**ASTUDIAETHAU CREFYDDOL RS 5b**

**CREFYDDAU'R DWYRAIN**

**Astudiaethau mewn naill ai Bwdhaeth neu Hindŵaeth neu Sikhaeth**

A.M. DYDD MERCHER, 14 Mehefin 2006

(1 awr 30 munud)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch gwestiynau o **un** adran yn unig, **naill ai** Adran A **neu** Adran B **neu** Adran C.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfr ateb a ddarparwyd ar wahân.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae 25 marc ar gael ar gyfer pob cwestiwn. Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Fe'ch atgoffir o'r angen am Gymraeg da ac am gyflwyniad clir yn eich atebion.

Dylid ateb pob cwestiwn mewn rhyddiaith ddi-dor. Asesir ansawdd eich cyfathrebu ysgrifenedig ym mhob ateb.

*Atebwch gwestiynau o* **un** *adran yn unig,* **naill ai** *Adran A* **neu** *Adran B* **neu** *Adran C*.

## ADRAN A: Astudiaethau mewn Bwdhaeth

*Atebwch* **ddau** *gwestiwn*.

**1.** *(a)* Eglurwch gredoau Theravada am yr arhat. [15]

*(b)* 'Mae'r syniad o'r arhat yn llawer agosach at ddysgeidiaeth y Bwdha na'r syniad o'r bodhisattva.'
Gwerthuswch yr honiad hwn. [10]

**2.** *(a)* Eglurwch amcanion arferion myfyrio Bwdhaidd. [15]

*(b)* 'Myfyrdod yw calon Bwdhaeth.'
Aseswch y safbwynt hwn. [10]

**3.** *(a)* Archwiliwch brif nodweddion Bwdhaeth Brydeinig. [15]

*(b)* Gwerthuswch i ba raddau y mae unrhyw **un** Gymuned Fwdhaidd Brydeinig yn gyfrifol am boblogrwydd Bwdhaeth ym Mhrydain. [10]

## ADRAN B: Astudiaethau mewn Hindŵaeth

*Atebwch* **ddau** *gwestiwn*.

**1.** *(a)* Eglurwch, gan gyfeirio at enghreifftiau, arferion crefyddol Vedaidd. [15]

*(b)* 'Yr Upanishads, heb unrhyw amheuaeth, yw'r mwyaf arwyddocaol a gwerthfawr o'r ysgrythurau Vedaidd.'
Gwerthuswch yr honiad hwn. [10]

**2.** *(a)* Eglurwch, gan gyfeirio at y testun, beth mae'r Bhagavad Gita yn ei ddysgu am natur Krishna. [15]

*(b)* 'Bhakti yw canolbwynt y Bhagavad Gita.'
Aseswch y safbwynt hwn. [10]

**3.** *(a)* Disgrifiwch y Mudiad Swaminarayan. [15]

*(b)* 'O'r holl fudiadau Hindŵaidd, y Mudiad Swaminarayan sydd â'r mwyaf i'w gynnig i gredinwyr cyfoes.'
Gwerthuswch yr honiad hwn. [10]

## ADRAN C: Astudiaethau mewn Sikhaeth

*Atebwch* **ddau** *gwestiwn*.

**1.** *(a)* Eglurwch bwysigrwydd y Guru Granth Sahib mewn Sikhaeth. [15]

*(b)* 'Mae testun yn cael ei ystyried yn sanctaidd, nid yn gymaint oherwydd ei fod yn dod oddi wrth Dduw, ond oherwydd ei fod yn cael ei gydnabod yn werthfawr gan gredinwyr.' Aseswch y safbwynt hwn gan gyfeirio at y Guru Granth Sahib. [10]

**2.** *(a)* Eglurwch effaith Ymraniad y Punjab ar fywyd a hunaniaeth Sikhaidd. [15]

*(b)* 'Ni ellir cyfiawnhau galwadau Sikhaidd am wladwriaeth yn Khalistan.' Gwerthuswch y safbwynt hwn. [10]

**3.** *(a)* Archwiliwch ddatblygiad y gymuned Sikhaidd ym Mhrydain. [15]

*(b)* Gwerthuswch y farn mai'r unig ateb i'r her sy'n wynebu Sikhiaid ym Mhrydain yw mabwysiadu diwylliant a ffordd seciwlar Brydeinig o fyw. [10]